| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 9 Mehefin 2023 |
| **Aelod Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol y Strategaeth Gorfforaethol, Polisi a Chydraddoldeb. |
| **Awdur yr Adroddiad** | Sian Owen, Prif Swyddog – Marchnata Strategol |
| **Teitl** | Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd Ddrafft |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

### Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd Ddrafft

1.1. Mae'r strategaeth hon yn angenrheidiol i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cynhyrchu'r strategaeth.

2.2. Sicrhau ymgysylltiad ac adborth cynnar ar yr adroddiad drafft.

2.3. Sicrhau bod y pwyllgor yn cefnogi'r strategaeth ac y gweithredir ar unrhyw argymhellion am ymgysylltiad pellach â phwyllgorau eraill y cyngor, yn cynnwys lefel y gymeradwyaeth ffurfiol angenrheidiol.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cyfrannu at greu strategaeth effeithiol a phriodol drwy adolygu'r strategaeth ddrafft a rhoi adborth arni.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Gweler ynghlwm y strategaeth ddrafft yr ydym ni fel tîm yn credu y byddai'n fanteisiol iddi gael ei gweld yn gynnar gan y pwyllgor hwn er mwyn cael eu mewnbwn a'u barn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

### Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda

5.1. Bod yn sefydliad 'dysgu' sy'n defnyddio adborth a gwersi a ddysgwyd i annog gwelliant sefydliadol.

5.2. Meithrin diwylliant sy'n croesawu her briodol a theg.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r costau perthnasol yn rhan o gyllidebau gwasanaethau gan eu bod yn ymwneud yn bennaf ag amser staff.

6.2. Roedd costau'r ymchwil cyhoeddus angenrheidiol wedi'u cynnwys mewn prosiect Cynllun Corfforaethol blaenorol - "Mae pobl yn chwarae rhan mewn siapio a gwella gwasanaethau".

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae Asesiad o Effaith ar Les wedi cychwyn a bydd yn barod am y cam cymeradwyo ffurfiol unwaith y bydd fersiwn terfynol y strategaeth yn barod.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Democrataidd a Chyfreithiol, Gwella Busnes ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar weithgor y strategaeth.

8.2. Mae dau ddarn o ymchwil cyhoeddus wedi'u gwneud a chyfeirir atynt yn y strategaeth ddrafft.

8.3. Bydd fersiwn terfynol y strategaeth a'r asesiad o effaith ar les yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol ar 14 Gorffennaf a

bydd fersiwn terfynol y strategaeth yn cael ei roi gerbron y pwyllgor hwn ym mis Medi 2023.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â'r camau argymelledig y gwnaed cais amdanynt.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021